

Plant a Theuluoedd: Y Cynghorydd Graham Hinchey

UCHELGAIS PRIFDDINAS



Dylai Caerdydd fod yn ddinas wych i'n plant gael eu magu ynddi. Dyna pam fod y Weinyddiaeth hon yn ymrwymedig i fuddsoddi yn nyheadau a chyfleoedd bywyd plant bach, yn arbennig y plant hynny o gymunedau mwyaf difreintiedig ein dinas neu deuluoedd sy'n cael trafferthion.

Yn wyneb cyni, rydym wedi buddsoddi mewn recriwtio gweithwyr cymdeithasol newydd, ac mae rhai camau mawr wedi'u cymryd i wella gwasanaethau plant statudol. Mae'r Weinyddiaeth hon yn benderfynol o barhau â hyn. Byddwn yn canolbwyntio ar y plant mwyaf agored i niwed, ac yn arbennig ar sicrhau bod plant yn ein system ofal yn iach a diogel ac yn cael pob cyfle i lwyddo mewn bywyd.

Byddwn yn gweithio i alinio gwasanaethau a chyllid – o bob rhan o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector – yn seiliedig ar anghenion pob plentyn a theulu unigol. Drwy wneud hynny, rydyn ni am weld newid graddol mewn gwaith partneriaeth ar lefel gymunedol rhwng ein gwasanaethau cymdeithasol, ein hysgolion a gwasanaethau cyhoeddus eraill fel iechyd a'r heddlu.

Teuluoedd iach sydd wedi'u grymuso sy'n gwneud orau, a gallant chwarae rôl weithredol mewn bywyd cymunedol. Byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i sicrhau bod hyn yn digwydd. Bydd ymyrraeth gynnar yn hanfodol ac yn gwneud gwahaniaeth yn ystod y camau cynnar i fynd i'r afael â phroblem cyn iddi waethygu ac atal profiadau plentyndod negyddol. Eto, bydd hyn yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth ar draws y sector cyhoeddus a gyda'n staff, ein dinasyddion a'n cymunedau, ac adeiladu ar bartneriaethau fel yr Hyb Diogelu Amlasiantaethol.

Byddwn yn:

- Parhau i wella'r Gwasanaethau Plant a gweithio i ddenu, recriwtio a chadw mwy o **weithwyr cymdeithasol plant**.
- Datblygu **cymorth cynnar effeithiol i deuluoedd fel nad oes angen i'r Cyngor ofalu am gyntaf o blant**.
- Parhau i **wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a gwella eu profiad o ofal**, gyda ffocws penodol ar leihau'r nifer sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r ardal.
- **Gwella'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc pan fyddant yn gadael gofal yr awdurdod lleol**, gan sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd i lwyddo, gan gynnwys parhau gyda Rhaglen Hyfforddi Gorfforaethol y Cyngor ar gyfer Plant sy'n Derbynn Gofal.
- Treialu dull 'Plant yn Gyntaf' o ran cydlynu gwasanaethau a chyllid i gefnogi plant a theuluoedd mewn lleoliad penodol yn y ddinas.
- Ymgysylltu'n well â chymunedau yn gyffredinol - a chymunedau ffydd yn benodol - i wella diogelwch plant ac oedolion ar draws amryw gymunedau Caerdydd.
- Gweithredu'r Rhaglen '**Dyfodol Anabledd**', aifodelu gwasanaethau a gwella canlyniadau i blant ac oedolion ifanc anabl.
- Datblygu '**Arwyddion Diogelwch**', dull sy'n seiliedig ar gryfderau ac sydd wedi'i drefnu'n ddiogel o ddelio â gwaith achos diogelu plant.
- Ystyried y posibilrwydd o **gynllun teithiau bws newydd neu ostyngol ar gyfer gofalwyr ifanc**.